**TUDALEN 17**

Cofnodion cyfarfod **Cyngor y Ddinas** o bell, a gynhaliwyd trwy fideo-gynadledda Zoom **Nos Lun 28 Mehefin 2021** am 6.30 pm.

**YN BRESENNOL: -** Eu Teilyngdod y Maer Cynghorydd Owen Hurcum, y Dirprwy Faer Cynghorydd Gwynant Roberts
Cynghorwyr : Les Day, Dylan Fernley, Derek Hainge, Elin Walker Jones, Huw Wyn Jones, John Wynn Jones, Kieran Jones, John Martin, Enid Parry, Mair Rowlands, Luke Tugwell.

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Martin Hanks (Ymgynghorydd), Gwynfor Owen (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion)

**48/21 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Medwyn Hughes, Nigel Pickavance, Gareth Roberts, John Wyn Williams.

**49/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim.

**50/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Dim.

**51/21 CYHOEDDIADAU**

Cyhoeddodd Eu Teilyngdod y Maer fod amser Martin Hanks fel (cyn) Glerc y Dref Dros Dro ac (ar hyn o bryd) Ymgynghorydd i'r Cyngor yn dod i ben ac mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf. Diolchwyd iddo ar ran y Cyngor am ei waith caled gan ddweud ei bod bob amser yn bleser gweithio gydag ef. Diolchodd Martin Hanks wedyn i bawb am eu cefnogaeth, gan gyfeirio'n arbennig at Gwynfor a oedd wedi gorfod ymdopi â'i gyfraniadau Cymraeg/Saesneg! Bu'n 2 mis heriol i Fangor, gyda phandemig byd-eang a dirywiad y Stryd Fawr. Fodd bynnag, roedd wedi helpu i osod sylfaen i fodel gweithio newydd i Fangor gyda gweithdai a chynlluniau strategol ac roedd y Cyfarwyddwr Dinesig eisoes wedi dechrau adeiladu ar y rhain. Estynnodd ei ddymuniadau gorau i'r Maer newydd a'r Cyngor.

**52/21 BANGOR DDIOGELACH: TRAFODAETH GYDA HEDDLU BANGOR**

Croesawodd y Maer Sarjant Arwel Hughes a PC Lisa Thomas o Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod. Tynnodd Sgt Hughes sylw at rai o'r prif broblemau a'r datblygiadau ym Mangor:

a) Camerâu Cylch Cyfyng (CCTV). Roedd camerâu wedi'u gosod yn dilyn cael cyllid rai blynyddoedd yn ôl ac maent wedi helpu i ddadansoddi patrymau a ffigyrau tor-cyfraith. Fodd bynnag, bu prinder camerâu yn ward Hirael lle'r oedd llinellau cyffuriau (*county lines*) yn aml i'w gweld. Bu nifer o ladradau hefyd, yn bennaf o dai myfyrwyr. Bwriedir cael camerâu ychwanegol i'r ardal a dylent fod yn weithredol erbyn Hydref/Tachwedd.

**TUDALEN 18**
Soniodd yr aelodau am leoliadau eraill lle'r oeddent yn teimlo y byddai camerâu yn fuddiol, sef Ffordd Garth Uchaf a'r ffordd sy'n arwain i lawr at M&S. Byddai camera arall yn ddefnyddiol hefyd wrth gatiau'r Pier, yn enwedig cyn Wythnos y Glas. Gellid cael camerâu symudol yn y llefydd hyn, ond yr anfantais gyda'r rheiny yw nad yw'r llun yn aml yn ddigon eglur i'w ddefnyddio fel tystiolaeth.

b) Tynnodd yr aelodau sylw at gwynion ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn gwahanol rannau o Fangor, yn bennaf cwynion am sŵn. Atebodd Sgt Hughes fod ymchwiliadau ar y gweill a'u bod yn ceisio sicrhau fod landlordiaid tafarndai yn glynu wrth eu rhwymedigaethau ac amodau eu trwydded.

Gan fod aelodau'n derbyn cwynion yn bersonol gan drigolion eu wardiau, roeddent eisiau gwybod â phwy i gysylltu. Cytunodd Sgt Hughes rannu enwau a rhifau ffôn ar ddiwedd y cyfarfod.

c) Cysylltiadau â'r Brifysgol. Mae camera ychwanegol a swyddog newydd yn cael eu darparu i'r brifysgol. Mae'r heddlu'n cysylltu'n rheolaidd â Phrifysgol Bangor ac mae cynlluniau i gynnal sesiynau ar ddiogelwch gyda'r myfyrwyr ac i wella goleuadau ar y llwybrau ayb.

d) Pryderon traffig, yn arbennig ar y ffyrdd cefn rhwng Glasinfryn a Llandyai; a'r tu allan i Faesgeirchen. Roedd ceir a beiciau modur yn goryrru. Dywedodd yr aelodau nad oedd y camerâu cyflymder yn cael eu monitro. Ymatebodd Sgt Hughes drwy ddweud nad oes adnoddau i fonitro camerâu. Awgrymodd y gallai'r aelodau roi gwybodaeth am rifau cofrestru ac am unigolion penodol, ond roedd rhai o'r aelodau yn gyndyn o wneud hyn rhag ofn peryglu eu hunain.

Diolchodd Eu Teilyngdod y Maer i swyddogion yr heddlu am eu presenoldeb ac am eu cyflwyniad manwl a dywedodd fod y Cyngor yn edrych ymlaen at gydweithio yn y dyfodol.

**53/21 COFNODION**

a) Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau - 17 Mai 2021
Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir.

b) Pwyllgor Cynllunio – 17 Mai 2021
Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir.

c) Pwyllgor Cynllunio – 7 Mehefin 2021
Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir.

d) Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid – 14 Mehefin 2021
Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir.

**54/21 CADARNHAU AELODAU PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU**

**TUDALEN 19**
Cymeradwywyd aelodaeth y ddau bwyllgor newydd – Asedau, Adnoddau a Phrosiectau a Llywodraethiant, Staffio a Chyllid, fel y trafodwyd:
Asedau, Adnoddau a Phrosiectau: Cynghorwyr: Mair Rowlands, Medwyn Hughes, Enid Parry, John Wyn Williams, Huw Wyn Jones, Elin Walker Jones, Luke Tugwell, Nigel Pickavance, Derek Hainge. Hefyd Eu Teilyngdod y Maer Cyng Owen Hurcum (safle heb bleidlais)

Llywodraethiant, Staffio a Chyllid: Cynghorwyr: George Turner, Gareth Roberts, Kieran Jones, Les Day, John Wynn Jones, Dylan Fernley, John Martin, Ifan James, y Dirprwy Faer Gwynant Roberts. Hefyd Eu Teilyngdod y Maer Cynghorydd Owen Hurcum (safle heb bleidlais)

Cynllunio: Mae pob aelod o'r Cyngor yn aelod o'r pwyllgor. Y pwyllgor i drafod ceisiadau strategol yn unig, ac felly i gwrdd ar sail *ad hoc*.

Cymeradwywyd aelodaeth is-bwyllgorau Cymorth Covid-19 a Nantporth, fel y trafodwyd.

Cymorth Covid-19: Eu Teilyngdod y Maer Cynghorydd Owen Hurcum. Cynghorwyr: Y Dirprwy Faer Gwynant Roberts, Les Day, John Wyn Williams, Luke Tugwell, Ifan James

Nantporth: Y Dirprwy Faer Cyng Gwynant Roberts, Eu Teilyngdod y Maer Cyng Owen Hurcum. Cynghorwyr: John Wyn Williams, Medwyn Hughes, Huw Wyn Jones, Dylan Fernley

**55/21 CADARNHAU CADEIRYDDION PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU**
Cymeradwywyd fel y trafodwyd. Cadarnhawyd Cyng Mair Rowlands yn Gadeirydd y Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau, a chadarnhawyd Cyng George Turner yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid. Cadarnhawyd Eu Teilyngdod y Maer Cyng Owen Hurcum yn Gadeirydd Pwyllgor Cymorth Covid-19, a'r Dirprwy Faer Cyng Gwynant Roberts yn Gadeirydd is-bwyllgor Nantporth.

**56/21 CADARNHAU DIRPRWY GADEIRYDDION PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU**
Cymeradwywyd fel y trafodwyd. Cadarnhawyd Cyng Medwyn Hughes yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau, a chadarnhawyd Cyng Gareth Roberts yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid. Cadarnhawyd Cyng Gwynant Roberts yn Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor Cymorth Covid-19, ac Eu Teilyngdod y Maer Cyng Owen Hurcum yn Ddirprwy Gadeirydd is-bwyllgor Nantporth.

**57/21 CYLCHOEDD GORCHWYL PWYLLGORAU**
Wedi ystyried sylwadau'r aelodau, roedd grŵp bychan wedi edrych ar y rhain a bellach roedd y fersiynau terfynol wedi'u rhannu. Cynigiwyd y dylid newid rheolau sefydlog y Cyngor (rhif 12 yn benodol) i adlewyrchu'r newidiadau. Roedd teimlad fod y cylchoedd gorchwyl hyn yn rhoi ffocws clir, cylch gwaith a phwrpas i'r Cyngor a'r ddau brif bwyllgor.
PENDERFYNWYD newid y rheolau sefydlog i adlewyrchu'r newidiadau.
Diolchwyd i gyn Glerc y Dref Dros Dro / Ymgynghorydd am ei waith caled a'i gyngor gwerthfawr wrth baratoi'r rhain.

**TUDALEN 20**
**58/21 PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL**

Roedd y rhestr o gynrychiolwyr y Cyngor wedi'i hanfon allan cyn y cyfarfod.
Cynigiwyd y dylai'r Cyfarwyddwr Dinesig ymuno â Grŵp Cyswllt Prifysgol Bangor a chytunodd ef i hynny.
Dywedodd Cyng Rowlands nad oedd hi wedi gallu mynychu cyfarfodydd Bwrdd Coleg Menai ac y byddai hi felly yn fodlon i rywun arall gymryd ei lle. Gan na ddaeth neb ymlaen, cytunodd Cyng Rowlands i aros ar y grŵp.
Gydag ymddiswyddiad y cyn Gynghorydd Colin King, roedd un sedd wag ar Grŵp Cymunedol Bangor. Fodd bynnag, nid oedd yr aelodau'n siŵr a oedd y grŵp hwn yn dal mewn bodolaeth:

- Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd Cymru – Cyng Derek Hainge; Cyng John Martin
- Cyngor ar Bopeth – Cyng Elin Walker Jones
- Canolfan Cymunedol Garth – Cyng Les Day; Cyng Huw Wyn Jones
- Grŵp Cyswllt a'r Gymued Prifysgol Bangor – Cyng Les Day; Eu Teilyngdod Y Maer Cyng Owen Hurcum; Cyfarwyddwr Dinesig
- Grŵp Cymunedol Bangor – GWAG
- Cwmni Diddordeb Cymdeithasol Nantporth – Y Dirprwy Faer Cyng Gwynant Roberts
- Partneriaeth Maesgeirchen – Cyng Nigel Pickavance
- Coleg Menai College – Cyng Mair Rowlands
- Partneriaeth Strategol Bangor – Eu Teilyngdod Y Maer Cyng Owen Hurcum; Y Dirprwy Faer Cyng Gwynant Roberts; Cyng Mair Rowlands
- Menai Strait Fishery Order Management Association – Cyng Gareth Roberts

**59/21 ADOLYGIAD O'R GOFRESTR ASEDAU**

Roedd yr adolygiad eisoes wedi cael ei anfon i'r aelodau.

(i) Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi gwneud dau argymhelliad yn sgil yr adroddiad:

Fod y Cyngor yn cytuno i werthu Coedydd Penrhyn Arms, a Chaeau Dargie.
Cafwyd cwestiwn am yr amodau oedd ynghlwm â gwerthu'r asedau hyn, awgrymodd un aelod y dylai'r Cyngor holi gyntaf a oes cyfyngiadau neu gyfamodau ar y tiroedd hyn. Roedd o'r farn y dylid gwirio hyn cyn gwneud penderfyniad. Fodd bynnag, roedd yr aelodau eraill yn credu fod Coedydd Penrhyn Arms wedi mynd yn rhy beryglus i beidio â'i waredu'n syth. Yn dilyn pleidlais, roedd 9 aelod o blaid gwerthu'r ddau safle, pleidleisiodd y Cyng Hainge yn erbyn y cynnig, ac ataliodd Cyng Parry ei phleidlais.

(ii) Trafodwyd problem Clefyd y Coed Ynn ymhellach a dywedwyd fod hwn yn fater o frys.

Gallai'r gwaith hyn fod yn ddrud iawn. Roedd un aelod yn gwybod am swyddog clefyd coed ynn oedd yn gweithio i Gyngor Sir Ynys Môn ac roedd yn credu fod cyllid ar gael i fynd i'r afael â'r broblem - cytunodd i wneud ymholiadau.

(iii) Cynigiwyd gohirio'r gwaith o archwilio strwythur y Pier tan y flwyddyn nesaf.

Roedd pawb o blaid.

**TUDALEN 21**

**60/21 CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT AM Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

Cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid mewn perthynas â:

a. Datganiad o Gyfrifon
b. Ffigyrau i'r Cyfrifon Blynyddol 2020/21
c. Datganiad o Sicrwydd 2020/21
d. Adroddiad Archwilio Mewnol 2020/21

Cymeradwywyd y rhain i gyd.

**61/21 DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**

(i) Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod y trefniant gyda Chyngor Gwynedd i dorri gwair bron iawn yn ei le. Roedd £10,000 wedi'i ddyrannu ar gyfer y gwaith hwn ac wedi'i gytuno arno gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Mawrth 2021. Dywedodd yr aelodau fod llawer o chwyn yn tyfu ar y llwybrau a'r palmentydd. Er nad yw hyn yn rhan o'r cytundeb torri gwair, mae angen ei drafod gyda Chyngor Gwynedd yn ddiymdroi.
(ii) Nid oedd cais ffurfiol wedi'i wneud i gael etholiad i lenwi'r sedd wag ar Ward Dewi; y cam nesaf oedd hysbysebu am aelod cyfetholedig.
PENDERFYNWYD hysbysu'r sedd wag trannoeth (29 Mehefin) gyda'r dyddiad cau ar 16 Gorffennaf.
(iii) Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi rhannu'r llythyr oddi wrth yr Arolygiaeth Gynllunio am ddatblygiad Pen y Ffridd. Yr unig ddewis sydd ar ôl bellach yw mynd i'r Uchel Lys.
PENDERFYNWYD cynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau ar 26 Gorffennaf.
(iv) Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig iddo fod mewn cyfarfod gyda Phrifysgol Bangor a Chyngor Gwynedd i drafod Cynllun Grant "Creu Lleoedd". Roedd gwahoddiad i wneud cais am gyllid i'w wario yn y flwyddyn ariannol yma, gyda syniadau am wella'r seilwaith allanol yng nghanol y ddinas. Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod hyn yn flaenoriaeth erbyn hyn. Roedd Mainc Cyfeillgarwch eisoes wedi'i gosod yng Nghaeau Ashley a oedd wedi cael llawer o sylw cadarnhaol, yn enwedig gyda'i chyfeiriad at ymweliad y Beatles yn 1967. Roedd un arall ar fin cael ei gosod ar waelod Ffordd Penchwintan, ac roedd hi'n bleser gweld gwaith crefftwyr ac artistiaid lleol ar y ddwy fainc.
(v) Mae'r coed Sakura yn tyfu'n dda ond mae rhai wedi cael eu fandaleiddio, roedd un wedi cael ei thorri'n hanner ar dop Ffordd Penchwintan. Roedd hyn yn siomedig iawn ac yn wir nid oedd arian wedi'u glustnodi i ddelio â fandaliaeth fel hyn.
(vi) Mae Cyngor y Ddinas bellach ar Facebook a Twitter, gyda sylwadau'n cael eu gwneud yn ddwyieithog. Facebook yw'r mwyaf poblogaidd o'r ddau gyfrwng. Er bod rhai yn eu defnyddio i fychanu'r Cyngor, bu'r ymateb yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol ac mae hon yn ffordd dda o gyfleu'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud.

**62/21 ANFONEBAU I'W TALU**

**TUDALEN 22**
Roedd y rhestr wedi cael ei rhannu â'r Maer, y Dirprwy Faer a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid. Roedd aelodau'r Pwyllgor hwnnw wedi holi am y swm sylweddol oedd yn ddyledus i Swyddfa Archwilio Cymru am adroddiad Stadiwm Nantporth. Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi gwirio'r swm hwn gyda'r Swyddfa Archwilio a dywedwyd mai'r cyfanswm oedd £18,000 gyda chynghorau tref a chymuned yn cyfrannu 2/3 o'r gost. Felly, y taliad dyledus yw £11,956 a gellir ei dalu'n syth neu ei rannu dros ddwy flwyddyn ariannol. Wedi trafodaeth, PENDERFYNWYD peidio â thalu'r swm yn syth gan nad oedd yn y gyllideb, ond talu mewn rhandaliadau. I'w drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Cytunwyd ar yr anfonebau eraill ar y rhestr, oedd yn dod i gyfanswm o £12,509.02,

**15 ARWYDDO DOGFENNAU**

Cymeradwyo arwyddo unrhyw ddogfennau sy'n berthnasol i unrhyw benderfyniad gan y cyfarfod hwn o'r Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.25 pm.**

CITY DIRECTOR– Iwan Williams – CYFARWYDDWR DINESIG